Amodau Penodi Safonol Graddfeydd 6 - 9 – Parhaol / Tymor Penodol

Bydd y penodiad yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

1. Mae'r penodiad yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Siarter a Statudau Prifysgol Cymru sydd mewn grym ar y pryd.

2. Graddfa gynyddrannol cyflog y swydd hon yw £……. - £…… Polisi'r Brifysgol yw bod penodiadau yn cael eu gwneud fel arfer ar bwynt cynyddrannol cyntaf y raddfa gyflog.

3. Mae hwn yn gontract parhaol/tymor penodol. Penodiad i Brifysgol Cymru yw hwn a bydd y swydd wedi ei lleoli yng Nghofrestrfa'r Brifysgol, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Parc Cathays, Caerdydd.

4. Bydd cyfanswm o 35 awr o oriau gwaith a gontractir yr wythnos. Er hynny, bydd gofyn i'r sawl a benodir weithio'r oriau sy'n angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd. Yr oriau gwaith arferol yw 8.45 a.m. tan 4.45 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener gydag egwyl ganol dydd am awr.

5. Yr hawl gwyliau blynyddol fydd 25 diwrnod ac 8 Gŵyl Banc a 7 diwrnod o wyliau arferol. Y flwyddyn wyliau yw 1 Ionawr i 31 Rhagfyr a chyfrifir gwyliau ar sail pro-rata. Rhaid cymryd gwyliau blynyddol ar adegau a gytunir â'r rheolwr llinell.

6. Yn ddarostyngedig bob amser i Reolau'r Cynllun, bydd y deiliad swydd yn gymwys i ymuno â Chynllun Blwydd-dal y Prifysgolion. Darperir manylion y cynllun ar adeg y penodiad. Ceir gwybodaeth ar wefan yr USS, www.uss.co.uk

7. Ni chaiff yr unigolyn a benodir ymgymryd ag unrhyw gyflogaeth, penodiad neu drefniant ymgynghori arall yn ystod cyfnod y Contract, boed â thâl neu beidio, heb ganiatâd ysgrifenedig penodol yr Is-Ganghellor.

8. Mae cynllun tâl salwch galwedigaethol y Brifysgol ar raddfa gynyddol gan ddibynnu ar hyd gwasanaeth hyd at uchafswm o 6 mis tâl llawn a chwe mis hanner tâl.

9. Bydd y penodiad yn ddarostyngedig i dderbyn tystlythyrau boddhaol, prawf o gymwysterau addysgol, proffesiynol, galwedigaethol etc fel y pennir gan yr ymgeisydd ar y ffurflen gais, a phrawf o gymhwyster i weithio yn y DU.

10. Dim ond pan fydd y Brifysgol yn bwriadu penodi, bydd gofyn i'r darpar ddeiliad swydd gwblhau holiadur iechyd cyn-lleoli a'i ddychwelyd i'r Brifysgol, a fydd yn ei anfon ymlaen at y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol (OHS). Bydd yr holiadur yn ffurfio sail adroddiad i'r Brifysgol gan yr OHS yn cadarnhau a yw'n ystyried bod y darpar ddeiliad swydd yn gymwys i'r swydd dan sylw.

11. Bydd cadarnhad o'r penodiad yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf o naw mis.

12. Gellir terfynu'r penodiad drwy dri mis o rybudd ysgrifenedig gan y naill ochr neu'r llall

13. Nid yw'n amod cyflogaeth gan y Brifysgol y dylai staff fod yn aelodau o Undeb Llafur. Er hynny, mae'r Brifysgol yn cydnabod yr Undeb Prifysgol a Choleg (UCU) fel yr Undeb Llafur priodol i negodi ar ran staff academaidd a staff cysylltiedig.